# CYFARFOD ARBENNIG O GYNGOR SIR YNYS MÔN

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Medi 2011

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd R.Ll. Jones - Is-Gadeirydd (Cadair)<br><br>Y Cynghorwyr W. J. Chorlton, E. G. Davies, C. Ll. Everett, Lewis Davies, R. Anthony Dew, B. Durkin, T. Ll. Hughes, W. T. Hughes, K. P. Hughes, Aled M. Jones, Eric Jones, O. Glyn Jones, Raymond Jones, R. Dylan Jones, T. H. Jones, Bryan Owen, J. V. Owen, Bob Parry OBE, G. O. Parry MBE, Eric Roberts, P. S. Rogers, E. Schofield, J. P. Williams, S. Williams. |
| **WRTH LAW**: | Prif Weithredwr<br>Cyfarwyddwr Corfforaethol (Gwasanaethau Amgylcheddol a Thechnegol)<br>Cyfarwyddwr Corfforaethol (Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol)<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol / Swyddog Monitro<br>Cyfarwyddwr Rhaglen Ynys Ynni<br>Pennaeth Gwasanaeth Dros Dro (Datblygu Economaidd)<br>Rheolwr Gwasanaethau Pwyllgorau<br>Swyddog Cyfathrebu. |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Comisiynwyr Alex Aldridge, Margaret Foster, M. Giannasi a Gareth Jones. |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Y Cynghorwyr Jim Evans, K. Evans, Ff. M. Hughes, R. Ll. Hughes, W. I. Hughes, H. Eifion Jones, C. McGregor, R. L. Owen, G. W. Roberts OBE, J. Arwel Roberts, Ieuan Williams. |

---

Draft

Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi gan y Cynghorydd K. P. Hughes

Estynnwyd croeso cynnes i'r cynrychiolwyr canlynol o Horizon Nuclear Power:-

Mr. Alan Raymant – Prif Swyddog Gweithredol
Mr. Kieran Somers – Pennaeth Cynllunio a Chaniatadau
Mr. Leon Flexman – Pennaeth Cyfathrebu

### 1 DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Cafwyd datganiad o ddiddordeb gan y Cyfarwyddwr Rhaglen Ynys Ynni gan bod ei gŵr yn cael ei gyflogi gan Horizon i baratoi asesiad effaith yr Iaith Gymraeg.

### 2 DERBYN UNRHYW GYHOEDDIAD GAN Y CADEIRYDD, ARWEINYDD Y CYNGOR, Y BWRDD COMISIYNWYR NEU BENNAETH Y GWASANAETHAU TÂL

Dim i'w adrodd.

**3 YMATEB CYNGOR SIR YNYS MÔN I DDATGANIAD YMGYNGHORI CYMUNEDOL HORIZON NUCLEAR POWER (YN UNOL AG ADRAN 47(3) DEDDF CYNLLUNIO 2008) YNG NGHYSWLLT YR ADEILAD NIWCLEAR NEWYDD ARFAETHEDIG YN WYLFA**

(a) Cafwyd adroddiad gan y Cyfarwyddwr Rhaglen Ynys Ynni - bod Horizon yn bwriadu adeiladu gorsaf bŵer niwclear newydd ar dir ger yr Orsaf Bŵer bresennol yn Wylfa ac fel rhan o'r cynnig datblygu, roedd angen i'r cwmni gynhyrchu Datganiad o Ymgynghori Cymunedol (SOCC) o dan Adran 47 Deddf Cynllunio 2008 yn amlinellu sut y mae'n bwriadu ymgynghori gyda'r gymuned ynglŷn â'r datblygiad arfaethedig.

Rhaid i'r cwmni hefyd ymgynghori gyda'r awdurdodau lleol perthnasol ar y SOCC drafft ac yn y papurau newydd yn lleol cyn gwneud unrhyw waith ymgynghori cyhoeddus yn unol â'r SOCC. Mae'n ddyletswydd statudol ar y Cyngor hwn i ymateb i ba mor ddigonol yw cynigion ymgynghori Horizon o fewn 28 diwrnod i dderbyn cais am sylwadau ar y SOCC.

Roedd ymateb drafft i'r SOCC (Atodiad 2 o'r adroddiad) wedi'i baratoi gan y Cyngor hwn, ac wedi cael ei gydlynu gan yr Uned Ddatblygu Economaidd, a byddai'n cael ei gyflwyno i Horizon a'r Comisiwn Cynllunio Isadeiledd heb fod yn hwyrach na 10 Hydref 2011. Roedd yn debygol y byddai Horizon yn gweithredu'r cynigion ymgynghori oedd wedi'u hamlinellu yn y SOCC ym mis Tachwedd, 2011.

Yn gyffredinol, roedd y Swyddogion yn credu bod y SOCC, gyda chymorth y Ddogfen Gefndirol yn dangos mewn ffordd gynhwysfawr a chlir bod Horizon wedi dangos parodrwydd i dderbyn rhai newidiadau oedd wedi'u hawgrymu. Roedd y swyddogion yn credu bod y SOCC, pe bai sylwadau'r Cyngor hwn yn cael eu cynnwys, yn addas i'r pwrpas ac yn ddigon cadarn i ymgynghori mewn ffordd effeithiol gyda'r cyhoedd ar y cynigion ynglŷn â'r bwriad am adeilad niwclear newydd yn Wylfa.

(b) Cyflwynwyd – cyflwyniad gan Alan Raymant, Prif Swyddog Gweithredu, Horizon Nuclear Power ar y Datganiad o Ymgynghori Cymunedol.

Rhoddodd Mr. Raymant ddiweddariad byr i'r Cyngor o'r cynnydd wnaed ers cyfarfod diwethaf y Cyngor hwn 6 mis yn ôl. Roedd y fframwaith ar gyfer gwaith datblygu yn symud ymlaen yn ôl y cynllun a'r rhan gritigol o'r rhaglen oedd y rhaglen gynllunio. Roedd cwmni Horizon yn hynod o brysur yn paratoi ar gyfer y broses ymgynghori y flwyddyn nesaf ac yn cwblhau'r dewis o dechnoleg yr adweithydd. Ochr yn ochr â hynny, roedd y cwmni wedi bod yn gweithio ar astudiaethau gwaelodlin yr Asesiad Effaith Amgylcheddol. Roedd y cwmni hefyd yn cwblhau'r cytundeb perfformiad cynllunio gyda'r Cyngor i gytuno'r angen am fwy o gapasiti yng nghyswllt yr adeilad niwclear newydd a fwriedir.

Roedd y tir yn Wylfa yn rhoddi digon o hyblygrwydd i Horizon allu edrych ar nifer o opsiynau ar gyfer lleoliad y gwaith. Roedd hefyd yn edrych ar dir ychwanegol fyddai ei angen i'r de orllewin o'r safle fel anghenion dros dro ac ar gyfer gwaith lliniaru amgylcheddol. Roedd y cwmni ar hyn o bryd yn cadarnhau cynlluniau manwl ynglyn â hyn ac yn cynnal trafodaethau gyda pherchnogion tir perthnasol.

Rhoddodd Mr. Kieran Somers grynodeb byr o'r gwaith y bu angen ei wneud wrth baratoi'r SOCC a'r gwaith ymgysylltu yr oedd Horizon wedi ei wneud hyd yn hyn. Roedd y SOCC i bob pwrpas yn ddull o ddangos sut y byddai Horizon yn ymgynghori ynglyn â'r bwriadau mewn ffordd dryloyw a chynhwysfawr. Crybwyllodd hefyd bod Grŵp Cyswllt Prosiect Adeilad Newydd wedi ei sefydlu ddiwedd 2010 yn cynnwys cydranddeiliaid allweddol a bod pedwar cyfarfod wedi'i gynnal hyd yn hyn.

Diolchodd y Cynghorydd C. Ll. Everett i'r swyddogion am eu hadroddiad ond mynegodd bryder nad oedd Cyngor Tref Caergybi na chwaith unrhyw aelod sirol etholedig yn cael ei gynrychioli ar y Grŵp Cyswllt Prosiect. Gan gofio y bydd angen defnyddio Porthladd Caergybi, efallai, ar gyfer y gwaith o adeiladu Wylfa B a bod y tir yng ngwaith Alwminiwm Môn yn awr wedi'i gynnwys o fewn ffin Cyngor y Dref, roedd yn teimlo ei bod yn hanfodol y dylai'r dref fwyaf ar yr Ynys gael ei chynrychioli ar y Grŵp Cyswllt.

Draft

Mynegodd y Cynghorydd Rhian Medi bryder oherwydd iddi weld yn y wasg yn ddiweddar bod Horizon angen tir ychwanegol yn Wylfa ac y byddai hyn yn cael effaith arwyddocaol ar deulu amaethyddol lleol. Ar ddiwedd y dydd, roedd gan Cynghorwyr gyfrifoldeb i'r etholwyr, treftadaeth, iaith a chyflogaeth yr Ynys. Byddai gwaith y fferm hon yn dod i ben pebaent yn gorfod gwerthu i Horizon. Fel aelod etholedig, roedd eisiau gwybod am y tir ychwanegol yr oedd Horizon ei angen a hefyd i ba bwrpas.

Yr oedd wedi dychryn hefyd yn dilyn derbyn copi o gofnod o gyfarfod rhwng y Cyngor hwn a Horizon oedd wedi ei gynnal ar 8 Tachwedd 2010, a hithau heb wybod am ei gynnwys cyn hynny. Roedd y cofnod yn dweud *"bod angen wedi'i nodi am gronfa ddŵr i wasanaethu anghenion y datblygwr am ddŵr a bod angen cynnal trafodaethau pellach ynglyn â'i faint a'i leoliad"*. A oeddem ni'n edrych ar gael Tryweryn arall yma? Pam y roedd Horizon angen mwy o ddŵr?

Pe bai'r datblygiad yn mynd yn ei flaen, a oedd pobl yn sylweddoli y byddai yna ddymp ar yr Ynys o faint tri chae pêl-droed ac na ellid defnyddio'r tir hwnnw wedi hynny am gannoedd o ganrifoedd. Os oedd y gwaith ymgynghori hwn i lwyddo, roedd angen i'r aelodau gael mynediad i'r holl wybodaeth berthnasol. Hwn oedd y cais mwyaf cynhennus y byddai Ynys Môn yn ei wynebu y ganrif hon ac y mae'n rhaid i'r gwaith ymgynghori fod yn dryloyw ac yn agored. Yr oedd yn ymwybodol hefyd bod Bwrdd Ynys Ynni wedi'i sefydlu. Fodd bynnag, nid oedd yn gwybod pwy oedd aelodau'r Bwrdd, a sut y cafodd ei benodi, ac nid oedd cofnodion ar gael o'r cyfarfodydd oedd wedi'u cynnal ac nid oedd yna unrhyw wybodaeth ar gael ar wefan y Cyngor.

Cyfeiriodd y Cynghorydd W. T. Hughes at y map swyddogol o'r safle ar gyfer yr orsaf bŵer newydd oedd gerbron y Cyngor heddiw. Roedd hefyd yn ymwybodol bod yna fap arall oedd yn dangos lle yr oedd Horizon yn bwriadu prynu tir ychwanegol. Fe hoffai weld y map hwnnw'n cael ei gylchu'n fwy agored i'r cyhoedd yn gyffredinol. Ei bryder ef o'r hyn yr oedd wedi'i weld a'i glywed oedd bod ffin y safle newydd yn dod o fewn lled priffordd i bentref Tregele. Holodd beth fyddai gwerth tai ac adeiladau yn y pentref pan fyddent o bosibl ond 20 troedfedd i ffwrdd oddi wrth safle adeiladu? Dywedodd bod un o'r pentrefwyr wedi dod ato yn ceisio gwerthu ei dŷ yn y pentref, ond unwaith y clywyd bod Wylfa angen mwy o dir, roedd y prynwr wedi tynnu ei gynnig yn ôl.

Roedd yn cydymdeimlo gyda'r ffermwyr unigol oedd yn cael eu heffeithio ond fe ddylid rhoddi ystyriaeth hefyd i bentrefwyr Tregele fyddai'n gorfod byw yng nghysgod yr adeilad newydd. Fel rhan o'r broses ymgynghori, gofynnodd i Horizon, y Cyfarwyddwr Ynys Ynni a'r Comisiynwyr gyfarfod pentrefwyr Tregele i drafod eu pryderon.

Dywedodd y Cynghorydd Tom Jones nad oedd yn ystyried bod Horizon tros yr ychydig fisoedd diwethaf wedi dweud popeth wrth yr aelodau lleol am y datblygiadau. Oni bai eu bod yn hollol dryloyw gyda'r cyhoedd, byddai straeon yn cael eu cychwyn a'u lledaenu o fewn y gymuned. Roedd am bwyso ar Horizon i fod yn hollol onest gyda pherchnogion tir ynglyn â'u bwriadau yn hytrach na dweud eu bod yn dymuno gwneud asesiad effaith amgylcheddol ar eu tir. Hefyd fe allai'r gwaith o fyrddio drysau a ffenestri rhai tai sydd wedi'u prynu'n barod gan Horizon gael effaith andwyol ar dwristiaeth yr ardal.

Dywedodd y Cynghorydd B. Durkin ei fod yn anhapus ynglyn â'r parthau ymgynghori a fwriadwyd. Byddai'n hoffi gweld yr un gwaith ymgynghori'n cael ei wneud yn ne yr Ynys fel yn y gogledd. Roedd yr effaith ar dde yr Ynys yr un mor bwysig, yn arbennig o ochr priffyrdd. Roedd yn cefnogi argymhellion y Pwyllgor Sgriwtini Datblygu Economaidd ac yn dymuno iddynt gael eu cynnwys yn ymateb y Cyngor.

Dywedodd y Cynghorydd Lewis Davies fod nifer o'i etholwyr yn gofyn iddo ofyn y cwestiynau canlynol a gofynnodd i Horizon ddarparu ymateb ysgrifenedig iddo:-

- Paham bod yr ymgynghori yn mynd yn ei flaen heb gael atebion iawn ynglyn ag effeithiau ieithyddol a diwylliannol y datblygiad? Roedd yna grybwyll bod hyn yn mynd i ddigwydd, ond pryd?

- Ym mharagraff 3.2.2 (tudalen 13) roedd yn dweud y byddai yna Ddatganiad Amgylcheddol ynghyd â'r cais, ond nid oedd unrhyw asesiad nac adroddiad wedi'u gwneud hyd yn hyn. Roedd yn ystyried mai hwn oedd un o'r pethau mwyaf pwysig y dylid ei wneud ar y cychwyn, edrych ar y dirwedd, ecosystemau ac ecoleg yr ardal. A fyddai yna unrhyw effaith ar yr S.S.S.I. a'r gwarchodfeydd natur cyfagos?

- Faint o wastraff oedd yna ar hyn o bryd a lle byddai gwastraff y dyfodol yn cael ei storio? O dan y broses newydd fe fyddai ddwywaith yn fwy peryglus oherwydd y gwres. Rydym yn gwybod am y problemau yn Sellafield heddiw sef y bydd y ganolfan ailbrosesu efallai yn cau. Roedd hyn wedi costio biliynau o bunnoedd ac efallai yn awr na fyddai'n cael ei defnyddio. Nid oedd gwlad Siapan eisiau anfon eu gwastraff i Sellafield eto oherwydd y problemau mawr yr oeddent wedi'i gael gyda'u hadweithyddion.

- Yn yr Unol Daleithiau roedd safleoedd argyfwng wedi'u creu rhyw 80 milltir i ffwrdd oddi wrth safleoedd yr adweithyddion. Roedd yn bwysig cael safleoedd o'r fath, a chynllun gwacau cynhwysfawr ac i gynnal trafodaethau gyda'r gwasanaethau argyfwng. Nid oedd dim byd ynglyn â hyn yn cael ei grybwyll gan Horizon yn yr adroddiad. Os oedd yr Unol Daleithiau yn teimlo eu bod angen parth gwahardd o 80 milltir yn dilyn argyfwng, yn sicr roedd yn bwysig dangos parth gwahardd tebyg ar fap o Ogledd Cymru.

- Roedd yna bellach ffyrdd o gael nwy o'r ddaear oedd yn cael ei alw'n ffracio. Roedd hyn yn golygu saethu dŵr a chemegolion i'r ddaear gyda hynny'n creu tonau o dan y graig ac roedd siarad y gallai hyn fod yn bosibilrwydd ym Môr Iwerddon. Roedd Sellafield, Wylfa a Heysham ar wely yr un graig ac fe allai tonau gael eu creu o dan ddaear allai hollti gwely'r graig o dan yr adweithyddion hyn. Roedd angen edrych yn ofalus ar hyn. Yn yr Unol Daleithiau roeddent wedi dioddef problemau mawr wrth ddefnyddio'r broses hon.

Roedd y Cynghorydd A. Morris Jones yn ategu'r hyn oedd wedi'i ddweud ynglyn â phryderon pobl Tregele. Crybwyllodd fod aelodau'r Pwyllgor Sgriwtini Datblygu Economaidd wedi gofyn am asesiad effaith annibynnol ynglyn â'r Iaith Gymraeg, a hefyd am sicrhau y byddai'r gweithlu yn un lleol pe bai'r datblygiad yn mynd yn ei flaen. Gofynnodd i swyddogion y Cyngor baratoi adroddiad ar yr hyn oedd ei angen i gyflawni'r holl ymrwymiadau o safbwynt isadeiledd, ymgynghori ac ati. Roedd trafodaethau ar y gyllideb eisoes yn cael eu cynnal ac roedd yn teimlo y byddai'n gyfle gwych, gyda'r Comisiynwyr yn eu lle, i geisio cael adnoddau ychwanegol o Gaerdydd.

Dywedodd y Cynghorydd J. P. Williams i lawer o gwmnïau lleol golli staff allweddol pan oedd y Wylfa gyfredol yn cael ei hadeiladu ac o ganlyniad fe ddaeth y cwmnïau hynny i ben. Roedd hyfforddi ac uwch sgilio pobl ifanc gan fusnesau lleol, felly, yn hanfodol i sicrhau na fyddai hyn yn digwydd eto.

Roedd y Cynghorydd T. Ll. Hughes yn dymuno gweld adroddiad ynglyn â pha effaith fyddai'r datblygiad hwn yn ei gael ar dwristiaeth yr Ynys.

Mewn ymateb i'r cwestiynau a'r pryderon a godwyd heddiw, dywedodd Mr. Alan Raymant ei bod yn bwysig i'r broses bod Horizon yn derbyn ystod eang o safbwyntiau ynghyd ag unrhyw bryderon ynglyn â'r cynigion. Roedd yn cydnabod o'r atborth oedd wedi'i dderbyn heddiw, eu bod wedi disgyn yn brin mewn rhai meysydd a bod angen mynd i'r afael â'r pryderon hynny.

Roedd Horizon yn hollol ymwybodol o agosrwydd safle'r datblygiad i Tregele a'r dulliau o liniaru hynny. Un o ganlyniadau lleihau'r effaith ar Tregele oedd yr angen i edrych ar yr opsiwn o sicrhau tir ychwanegol i bwrpasau adeiladu a lliniaru amgylcheddol. Roeddent eisoes yn cynnal asesiad effaith ar yr Iaith Gymraeg fel rhan o'r asesiad amgylcheddol cyffredinol. Byddai'r Asesiad Effaith Amgylcheddol cychwynnol yn cael ei gyflwyno gyda'r ymgynghori ar y cyfnod cyntaf.

Byddai risgiau seismig a chael gwared o wastraff i gyd yn cael eu disgrifio yn y deunydd ymgynghori fyddai'n cael ei gyflwyno ddechrau'r flwyddyn nesaf. Roedd yna hefyd ddealltwriaeth dda o'r effaith ar gyflogwyr ac roedd yn cydnabod ei fod yn hollol gefnogol i'r argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Sgriwtini. Roedd Horizon eisoes yn cefnogi rhaglen brentisiaethau fyddai'n cael ei chynyddu wrth i'r prosiect fynd yn ei flaen er mwyn gwneud yn siŵr bod ganddynt y capasiti fel y gallai busnesau cyfredol a'r gwaith prosiect newydd weithio ochr yn ochr â'i gilydd. Byddai tanwydd wedi'i

ddefnyddio'n cael ei storio ar sail dros dro ac wedyn byddid yn cael gwared ohono mewn cyfleuster tymor hir yr oedd y llywodraeth yn ei ddatblygu.

Roedd y Grŵp Cyswllt Prosiect yn cynnwys cynrychiolwyr o fudiadau ar draws yr Ynys yn cynnwys cynrychiolwyr etholedig a rhai oedd yn cael ei heffeithio gan y datblygiad. Y disgwyl oedd y byddai aelodaeth y Grŵp yn datblygu dros y blynyddoedd. Roedd yn derbyn y dylid cael cynrychiolaeth o Gaergybi a byddai'n sicrhau bod hyn yn digwydd.

Roedd y Cynghorydd Rhian Medi yn dymuno iddo gael ei gofnodi yn y cofnodion nad oedd wedi derbyn ymateb gan Horizon i'r cwestiynau yr oedd wedi'u gofyn yn gynharach.

Mewn ymateb dywedodd y Cadeirydd y byddai'n cael cyfle i godi'r cwestiynau hynny unwaith yn rhagor fel rhan o'r ymgynghori. *(Roedd Horizon yn barod i roddi ateb ysgrifenedig mwy manwl i'r Cynghorydd Rhian Medi)*

**PENDERFYNWYD**

- **Nodi a chymeradwyo cynnwys a strwythur SOCC Horizon Nuclear Power (cyn belled ag y bo sylwadau'r Cyngor hwn yn cael eu cymryd i ystyriaeth).**

- **Nodi, cytuno a chymeradwyo ymateb y Cyngor hwn i'r Datganiad o Ymgynghori Cymunedol fel ag yr oedd wedi'i gynnwys yn ymateb y Prif Weithredwr, ynghyd â'r ychwanegiadau y cyfeirir atynt isod.**

- **Cytuno bod yr Uned Datblygu Economaidd yn parhau i gydlynu a hwyluso trafodaethau / negodi gyda Horizon ar eu cynigion SOCC.**

- **Cytuno gyda'r sylwadau canlynol roddwyd ymlaen gan y Pwyllgor Sgriwtini Datblygu Economaidd, Twristiaeth ac Eiddo a gynhaliwyd ar 22 Medi 2011:-**

    - **Bod Horizon Nuclear Power yn cynnal ymgynghoriad penodol gyda'r holl gyflogwyr, ym Môn ac yn ardal Arfon, Gwynedd i werthuso'r effeithiau tebygol a'r cyfleon allai godi o ganlyniad i'r datblygiad niwclear newydd yn Wylfa.**

    - **Bod y parthau ymgynghori'n cael eu diwygio fel bod y cyfan o Ynys Môn yn cael ei chynnwys ym Mharth A, gyda hynny'n adlewyrchu'n well yr effaith debygol y bydd y datblygiad niwclear newydd yn ei gael ar draws yr Ynys.**

    - **Bod asesiad effaith ieithyddol annibynnol yn cael ei gynnal / gomisiynu gan y Cyngor Sir (gyda Chomisiynydd Iaith Llywodraeth Cymru yn rhoi cyngor a mewnbwn ac yn cymryd rhan).**

    - **Bod asesiad effaith annibynnol ar y stoc dai yn cael ei gomisiynu.**

    - **Bod gwaith pellach yn cael ei wneud ar hyfforddi ac uwchsgilio pobl ifanc fel eu bod wedi'u paratoi'n well i fanteisio ar unrhyw gyfleon tebygol fydd yn codi o ganlyniad i'r datblygiad niwclear newydd.**

    - **Bod y cwricwlwm addysgol yn lleol yn cael eu hannog i ganolbwyntio ar bynciau Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianwaith a Mathemateg (STEM) a bod yna agwedd tracio deuol gyda'r Awdurdod Dadgomisiynu Niwclear er mwyn sicrhau eu bod yn chwarae eu rhan yn y rhaglen sgiliau.**

Draft

- **I ofyn i Horizon ymestyn gwahoddiad i gynrychiolwyr o Gyngor Tref Caergybi ac i un cynrychiolydd etholedig sirol tros Gaergybi fynychu cyfarfodydd o'r Grŵp Cyswllt Prosiect yn y dyfodol.**

- **Bod Horizon hefyd yn gwneud trefniadau i gynnal gwaith ymgynghori pellach gyda thrigolion Tregele ynglyn â'u pryderon a bod gwahoddiad yn cael ei ymestyn i'w haelod lleol, y Comisiynwyr a Swyddogion Perthnasol yr Awdurdod hwn i fod yn bresennol.**

- **Ein bod yn gofyn i swyddogion y Cyngor adrodd yn ôl i'r Cyngor ar yr adnoddau angenrheidiol sydd eu hangen i ddelio gyda'r holl brosesau ymgynghori, effeithiau ar yr isadeiledd ac effeithiau cymdeithasol-economaidd a bod achos am gyllid yn cael ei wneud i Lywodraeth Cymru, gan gadw mewn cof rôl y Comisiynwyr a hefyd am yr angen i baratoi cyllideb yr Awdurdod hwn am 2012-13.**

Daeth y cyfarfod i ben am 3:30pm

**Y CYNGHORYDD R. Ll. JONES**
**IS-GADEIRYDD**

Draft